

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – AWST 2016

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

3. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MEDI 2016

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

4. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30^{ain} MEDI 2016 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2016/17

Derbyn a chydabod cyd-adroddiad cynnydd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb.

5. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI (1^{af} GORFFENNAF – 30^{ain} MEDI 2016

Derbyn cyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig) mewn perthynas â pherfformiad buddsoddi ar gyfer yr ail chwarter.

6. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH: CIOSGAU BT

Derbyn a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref mewn ymateb i ymgynghoriad ar fwriad BT i gael gwared â nifer o giosgau ffôn yn Sir Ddinbych (copi'n amgaeedig).

7. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

8. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

9. CYFARFODYDD Y CYNGOR TREF

Ar gais yr Aelodau, trafod trefniadau protocol yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref.

10. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

11. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.